



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



**ADDYSG A HYFFORDDIANT  
ÔL-ORFODOL (AHO)**

**GWELEDIGAETH  
STRATEGOL**

**DIWALLU ANGHENION A DYHEADAU POBL, BUSNESAU A  
CHYMUNEDAU CYMRU O RAN ADDYSG, HYFFORDDIANT  
AC YMCHWIL**

# ADDYSG A HYFFORDDIANT ÔL-ORFODOL (AHO)

## GWELEDIGAETH STRATEGOL

Yng Nghymru gallwn fod yn falch o'n hysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant annibynnol a sefydliadau dysgu oedolion a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i ddinasyddion, y gymuned a'r wlad yn gyffredinol.

Mae'r datganiad gweledigaeth hwn yn ceisio adeiladu ar y cryfderau hyn er mwyn ymateb yn well i'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Gan weithio gyda'n gilydd, byddwn yn sicrhau sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) mwy ymgysylltiedig, rhagorol a theg yng Nghymru sy'n blaenoriaethu buddiannau dysgwyr ac yn cyfrannu at ffyniant cenedlaethol.

Dymunwn weld system AHO gydgyssylltiedig yng Nghymru sy'n hawdd i bawb ei llywio, yn cael ei gwerthfawrogi gan y cyhoedd, yn creu cymdeithas fedrus iawn, yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, sydd ag enw da ledled y byd am addysg, hyfforddiant, ymchwil ac arloesi rhagorol, ac sy'n seiliedig ar genhadaeth ddinesig.

Bydd ein dull gweithredu'n galluogi dysgwyr i symud yn ddiraferth o addysg orfodol i addysg ôl-orfodol, gan adeiladu ar ein cenhadaeth genedlaethol ar gyfer diwygio addysg.

Bydd sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn hanfodol i wireddu'r weledigaeth hon. Yn amodol ar ddeddfwriaeth, bydd ganddo bwerau ariannu, cynllunio a rheoleiddio helaeth, ganeu alluogi i wella ansawdd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws y sector AHO. Bydd yn canolbwyntio ar fuddiannau dysgwyr, ac yn cydweithio ar draws y sector AHO i wella deilliannau unigol a cenedlaethol.

Mae ein gweledigaeth, sydd wedi'i llywio gan nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi'i nodi yn y datganiad hwn fel cyfeiriad newydd, clir i'r sector AHO a dim ond drwy bartneriaeth a chydweithredu gwirioneddol ar draws y sector y bydd modd cyflawni'r weledigaeth hon yn llwyddiannus.




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES